Cynnau tân

Dewis rhwng y da a'r drwg / Cyfrifoldeb

Cychwynnodd Meri Jên y gath dri lliw ar ei thaith fel arfer i lawr y stryd, dros y wal ac i fyny am y bont oedd yn croesi'r afon. Hon oedd taith bob dydd Meri Jên. Eisteddodd, yn ôl ei harfer ar ben wal y bont i edrych i'r dŵr islaw. Gwelai ddau neu dri o bysgod braf yn nofio. Buasai wrth ei bodd yn dal y pysgod a'u bwyta. Wel, roedd ganddi hawl i freuddwydio! I ffwrdd â hi ar hyd y wal gan neidio i'r glaswellt yr ochr arall. Gwelodd focs melyn yng nghanol y glaswellt. Aeth ato gan ei arogli. Dyna arogl rhyfedd. Doedd hi erioed wedi arogli hyn o'r blaen. Cododd y bocs melyn gyda'i phawennau. Roedd llun alarch arno – alarch mawr gwyn. Os gwn i beth oedd yn y bocs. Bu wrthi am hydoedd yn ceisio'i agor Roedd un ochr i'r bocs yn llyfn ond roedd yr ochr arall yn arw. Rhedodd ei thafod goch ar hyd yr ochr arw. Roedd wedi anafu ei thafod. Dyma hi'n rhoi ei phawen i mewn i un ochr y bocs a llwyddodd i wthio. Daeth yr ochr arall allan o'r bocs. Roedd yna bethau rhyfedd iawn yn y bocs. Darnau bychain o bren a phen coch ar ben bob un ohonyn nhw. Dechreuodd arogli'r darnau pren. Roedd arogl rhyfedd ar y rhain hefyd. Gafaelodd yn un ohonyn nhw yn ei phawen. Bu wrthi'n chwarae gyda'r darn pren tenau am hydoedd. Rhoddodd y pen coch ar ochr arw'r bocs melyn. Rhwbiodd y pen coch yn sydyn. Dyma fflach o dân. Dychrynodd Meri Jên yn arw a thaflodd y darn pren i ganol y glaswellt.

Dechreuodd y glaswellt fflamio. Rhedodd oddi yno, gan adael y bocs melyn ar y llawr. Aeth yn ei hol ar hyd wal y bont, ar hyd y stryd yn ôl i'w chartref. Aeth yn syth i'w basged yn y sied. Roedd ei chalon yn curo fel gordd. Roedd hi wedi dychryn yn lân. Fel roedd hi'n mynd i gysgu clywodd sŵn rhyfedd yn dod o gyfeiriad y ffordd fawr. Sŵn clychau'n canu. Clywodd sŵn plant oedd yn byw ar y stryd yn dweud "Mae'r frigâd dân yn mynd i gyfeiriad y bont. Mae'n rhaid fod yna dân

yn rhywle."
Pan glywodd Meri Jên y gair "tân" dechreuodd grynu unwaith eto. Meddyliodd am y bocs melyn, llun yr alarch a darnau bychain o bren a phen coch ar bob un ohonyn nhw. Tybed ai hi oedd wedi cynnau'r tân wrth ymyl y bont?
Penderfynodd na fyddai hi byth yn chwarae efo matsus byth wedyn. Gyda'r nos pan oedd yn gorwedd o flaen y tân clywodd ei meistres yn dweud wrth ei gŵr bod rhywun wedi cynnau tân wrth y bont. Aeth i gysgu'n ddistaw bach. Gobeithio na fyddai neb yn gwybod pwy wnaeth gynnau'r tân y bore hwnnw.

O Dduw, mi fydda i yn gwneud pethau peryglus iawn weithiau
Wnei di fy nysgu i wybod beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg. Amen.

- Pa mor beryglus ydi chwarae efo matsus?
- Sut y gallan nhw greu perygl i bobl eraill?
- Pa mor bwysig ydi ystyried y gall ein chwarae ni fod yn niweidiol i bobl eraill?